DWD

# Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad - Crynodeb Gweithredol

**SYSTEM BATRIS STORIO YNNI**

**ABERTAWE (BESS)**

**TIR I'R GORLLEWIN O HEOL**

**RHYDYPANDY, TREFORYS, ABERTAWE**

69 Carter Lane
Llundain EC4V 5EQ

T: 020 7489 0213
Ff: 020 7248 4743
E: info@dwd-ltd.co.uk
W: dwd-ltd.co.uk

Ymwadiad

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan DWD, enw masnachu DWD Property and Planning Limited. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 15174312. Swyddfa Gofrestredig: Spring Lodge, 172 Chester Road, Helsby, Swydd Gaer, Lloegr, WA6 0AR. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu at ddefnydd unswydd ac ecsgliwsif y cleient neu'r parti cyfarwyddo. Ni fydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu nac ar gael i unrhyw drydydd parti. Ni chaniateir iddo chwaith gael ei gyhoeddi, ei atgynhyrchu ac ni chaniateir cyfeirio ato mewn unrhyw ffordd heb wybodaeth a chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw DWD. Nid yw'r adroddiad yn gyfystyr â chyngor i unrhyw drydydd parti ac ni ddylid dibynnu arno felly. Nid yw DWD yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw drydydd parti yn sgil y parti hwnnw yn dibynnu ar gynnwys yr adroddiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

# CYNNWYS

**1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL ........................................................................................ 1**

# 1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

## Trosolwg

1.1 Mae'r Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad ('PDAS') hwn yn pennu fframwaith ystyriaethau cynllunio wrth baratoi cais cynllunio llawn a gyflwynir i Gyngor Abertawe (y 'Cyngor') ar gyfer adeiladu a gweithredu System Batris Storio Ynni (BESS) â chapasiti trydan hyd at 100 megawat ('MW') a gwaith cysylltiedig.

1.2 Mae'r cyflwyniad cychwynnol Adran 1 (Cyflwyniad) yn disgrifio'r datblygiad, diben y cynigion, trosolwg o'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol, a'r angen i ddatblygu uned storio batris. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu prif nodweddion ffisegol y Datblygiad Arfaethedig ac yn disgrifio lleoliad daearyddol a chyd-destun ffisegol y Safle. Mae cefndir yr Ymgeisydd, Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio, Sgrinio AEA, rhestr o ddogfennau i'w cyflwyno gyda'r cais cynllunio, ac is-bennawd sy'n nodi diben a strwythur yr adroddiad yn dod â'r adran ragarweiniol i ben.

1.3 Mae Adran 2 (y Safle a'r Cyffiniau) y Datganiad yn disgrifio'r Safle a'i nodweddion allweddol, yr hanes cynllunio perthnasol sy'n ymwneud ag ef, unrhyw ddynodiadau cynllunio lleol, unrhyw ddyraniadau sy'n gymwys, a phroses dewis safle'r Ymgeisydd.

1.4 Mae Adran 3 (Y Datblygiad Arfaethedig) yn rhoi trosolwg o’r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig gan gynnwys ei brif elfennau a'i nodweddion datblygu, yr angen am y datblygiad, a nodweddion dylunio a mynediad, gan gynnwys defnydd, maint, cynllun, ymddangosiad a mynediad.

1.5 Mae'r adrannau Dull Dylunio (Adran 4) a'r Elfennau Dylunio (Adran 5) yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i ddylunio'r cynllun gan gynnwys egwyddorion dylunio ac esblygiad y dyluniad. Gwneir dadansoddiad o elfennau allweddol y Datblygiad Arfaethedig trwy adolygiad ar sail dyluniad o ddefnydd y Safle, cwantwm y datblygiad, y cynllun arfaethedig, maint y prif strwythurau, ei ymddangosiad a’r dull tirlunio.

1.6 Mae Adran 6 (Cyd-destun y Polisi Cynllunio) yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer penderfynu ar y Cais Cynllunio. Mae hyn yn cynnwys cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru 2024, a Chynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025, ymhlith ystyriaethau eraill.

1.7 Yn Adran 7 (Asesiad o'r Datblygiad Arfaethedig) gwneir asesiad o sut mae pob agwedd ar y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Lleol yn dylanwadu ar y cynigion, a sut mae'r cynigion yn cydymffurfio â nhw.

1.8 Yna mae'n gorffen trwy ddweud bod yr Egwyddor Datblygu yn cael ei chefnogi, bod y cynigion wedi bod yn destun proses Dewis Safle ystyriol sy'n angenrheidiol oherwydd lleoliad y Datblygiad Arfaethedig yng nghefn gwlad.

1.9 Mae'r Adran Asesu yn egluro na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd lleol, o ran effaith y dirwedd weledol, ei faint, ei ymddangosiad a'i ddyluniad, nac yn cael unrhyw effaith ar ecoleg neu goedyddiaeth leol.

1.10 Mae'r datblygiad yn cynnwys cynllun tirlunio/plannu helaeth ac yn darparu budd i fioamrywiaeth.

1.11 Ystyriwyd effeithiau'r cynllun ar yr amgylchedd hanesyddol, perygl llifogydd/draenio a'r effaith ar briffyrdd. Ni fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar leoliadau unrhyw adeiladau rhestredig/asedau treftadaeth. Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal sydd â'r risg isaf o lifogydd afonol, a byddai'n cael ei ddraenio gan nodwedd SuDS sy'n rhan o'r cynllun i atal llifogydd dŵr wyneb. Ni fyddai lefel yr effaith gan gerbydau yn ystod y cyfnod adeiladu yn achosi problem diogelwch priffyrdd, ac nid yw'n cael ei hystyried yn ddifrifol.

1.12 Yn dilyn y gwaith adeiladu, ni fyddai llawer iawn o symudiadau trafnidiaeth i'r Safle ac oddi yno at ddibenion cynnal a chadw parhaus.

1.13 Mae is-adran amwynder Adran 7 sy'n ymwneud ag ystyriaethau sŵn, goleuadau a diogelwch yn cadarnhau na fydd unrhyw sŵn a gynhyrchir yn uwch na therfynau lefel sŵn sydd wedi'u pennu ar gyfer datblygiad cyfagos Parc Grid Gwyrddach Abertawe tua'r gogledd, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar amwynderau eiddo preswyl cyfagos. Yn yr un modd, mae'r goleuo wedi'i gynllunio i sicrhau ei fod yn cael ei gyfeirio at i lawr, a'i fod ar y lefel ofynnol isaf sy’n angenrheidiol ar gyfer diogelwch er mwyn osgoi llygredd/gollwng golau neu unrhyw effaith andwyol ar eiddo cyfagos. Bydd diogelwch gweithredol y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei sicrhau drwy gadw at brosesau a gweithdrefnau rheoli diogelwch fel y nodir yn y Strategaeth Diogelwch Tân sy'n cyd-fynd â'r Cais Cynllunio.

1.14 Mae Adran 8 (Crynodeb a Chasgliadau) yn crynhoi canfyddiadau adrannau blaenorol y Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad, gan bennu bod y cydbwysedd cynllunio yn cael ei bwysoli'n sylweddol o blaid y Datblygiad Arfaethedig. Mae'n dod i'r casgliad y dylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y cynigion.